**PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD STD(2) 04-05 (COFNODION DRAFFT)**

---

Dyddiad: 24 Tachwedd 2005, am 2:00pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Bae Caerdydd

Yn bresennol:

*Aelodau*

Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed (Cadeirydd)
Jocelyn Davies, Dwyrain De Cymru
Tamsin Dunwoody, Preseli Penfro
Tal Lloyd, Dwyrain Abertawe
Lynne Neagle, Torfaen
Karen Sinclair, De Clwyd
Gwenda Thomas, Castell Nedd
Owen John Thomas, Canol De Cymru
Brynle Williams, Gogledd Cymru

*Comisiynydd Safonau*

Richard Penn

*Swyddogion*

Andrew George, Clerc y Pwyllgor
Gareth Rogers, Dirprwy Glerc y Pwyllgor
Peter Jones, Cwnsler I Wasanaeth Seneddol y Cynulliad
Kathryn Thomas, Ysgrifenyddiaeth

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r Cadeirydd yn cyflwyno**

**Papur –** STD(2) 04-05(01)

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu aelodau'r Pwyllgor.

2. Derbyniwyd ymddiheuriad gan David Davies.

3. Cytunodd y Pwyllgor fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2005 yn gofnod cywir.

**Eitem 2: Diweddaru ac Adolygu'r Camau Angenrheidiol yn sgil STD(2) 03-05**

**Papur – STD(2) 04-05(02)**

4. Nododd y Pwyllgor y cynnydd a waned ar bwyntiau gweithredu'r cyfarfod blaenorol:

**Eitem 3: Adroddiad y Comisiynydd Safonau**

**Papur - STD(2) 04-05(03)**

5. Trafododd y Pwyllgor adroddiad ysgrifenedig y Comisiynydd ynghyd ag adroddiad llafar oedd yn cynnwys diolch I Gareth Rogers am ei waith ar wefan y Comisiynydd.

   Nododd y Pwyllgor y byddai'r Comisiynydd, yn dilyn ei gyfarfodydd ag Arweinwyr y Pleidiau, hefyd yn cwrdd â John Marek, AC a Peter Law, AC;

**Eitem 4: Y Weithdrefn Gwynion: Y Weithdrefn Apelio**

**Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan y Clerc (llafar)**

6. Siaradodd Clerc y Pwyllgor am y cynnydd diweddaraf wrth ddatblygu gweithdrefn sefydlu paneli apêl parthed â chwynion yn erbyn Aelodau.

7. Nododd y Pwyllgor:

   - Er i Farnwr Gweinyddol Cylchdaith Cymru a Chaer roi cymeradwyaeth mewn egwyddor i drefniadau drafft ar gyfer sefydlu paneli apêl, disgwylid cymeradwyaeth ffurfiol o hyd;

   - Petai digwyddai apêl cyn sefydlu'r weithdrefn ffurfiol, roedd y Barnwr Gweinyddol wedi cytuno i enwebu aelod annibynnol o'r panel sydd â chymwysterau cyfreithiol.

**Eitem 5: Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch – Gwerth Cronnol**

**Papur: - STD(2) 04-05(04)**

8. Trafododd y Pwyllgor y papur oddi wrth yr Ysgrifenyddiaeth ac, yn dilyn y drafodaeth, cytunwyd i bleidleisio ar y cynnig sy'n dilyn:

   Y dylid cadw at y drefn bresennol ar gyfer cofrestru buddiannau:

   O blaid - 4
   Yn erbyn - 5
   Ymatal - 0

   Trechwyd y cynnig o 5 bleidlais I 4 â neb yn ymatal.

9. Cytunodd y Pwyllgor wedyn i bleidleisio ar y cynnig sy'n dilyn:

Y dylid cofrestru buddiannau cronnol dros gyfnod o 4 blynedd:

O blaid - 5
Yn erbyn - 4
Ymatal - 0

Llwyddodd y cynnig o 5 pleidlais i 4 â neb yn ymatal.

10. Felly cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Aelodau gofrestru rhoddion cronnol a lletygarwch a dderbynnir dros gyfnod o dymor y Cynulliad sef pedair blynedd a gofynnwyd i'r ysgrifenyddiaeth wneud y newidiadau angenrheidiol i'r canllawiau a'r Rheolau Sefydlog i'w rhoi gerbron y Cyfarfod Llawn cyn gynted ag y bo modd. Roedd hyn i gael ei wneud gyda'r newidiadau eraill i'r Rheolau Sefydlog a benderfynwyd yn y cyfarfodydd diweddar.

**Gweithredu:**

**Yr Ysgrifenyddiaeth i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r canllawiau a'r Rheolau Sefydlog.**

**Eitem 6: Unrhyw Fater Arall a dyddiad y cyfarfod nesaf.**

11. Cytunodd y Pwyllgor â chynnig y Cadeirydd y dylid, ond i'r Cyfarfod Llawn eu cymeradwyo, dderbyn pob slot a ddyrannwyd yn yr Amserlen Gyfnodol, ond i weithredu yn ôl y syniad na chynhelid cyfarfod pan na fyddai digon o fusnes i gyfiawnhau hynny. Hysbysid yr Aelodau mor fuan ag y byddai hynny'n ymarferol pe bai'r Cadeirydd yn penderfynu peidio â galw cyfarfod yn un o'r slotiau a neilltuwyd.

12. Gan nad oedd unrhyw fusnes arall, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod ar ben am 14:32.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau**